

Cytundeb SDG

Cydnabyddwn ein bod ar wahanol gamau yn ein taith tuag at ddyfodol cynaliadwy, a bod ein blaenoriaethau strategol yn dibynnu ar ein huchelgeis strategol, ein meysydd arbenigedd a'n diwylliant sefydliadol.

Mae'r Cytundeb hwn yn galw arnom ni, brifysgolion a cholegau'r byd

i ymgorffori'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn ein gweithgareddau addysgu, ymchwil, arwain, gweithredu, gweinyddu ac ymgysylltu.

Rydym ni sydd wedi arwyddo'r cytundeb yn cydnabod:

- Natur anwahanadwy a rhyng-gysylltiedig y set gyffredinol o Nodau - Pobl, Ffyniant, Planed, Partneriaeth, Heddwch
- Fod gennym ni, fel addysgwyr, gyfrifoldeb i chwarae rhan ganolog a thrawsnewidiol wrth gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy erbyn 2030

Ac felly rydym yn datgan:

Fel arweinwyr neu ymarferwyr unigol, academyddion, myfyrwyr neu ymchwilwyr, y byddwn yn:

- Alinio pob ymdrech fawr â'r Nodau, targedau a dangosyddion Datblygu Cynaliadwy, a hynny drwy'r ffordd y byddwn yn addysgu, ymchwilio, arwain, gweithredu ac ymgysylltu hefyd;
- Anelu at gynnwys aelodau o'r holl grwpiau rhanddeiliaid allweddol yn yr ymdrech hon, yn fyfyrwyr, academyddion, staff proffesiynol, cymunedau lleol a rhanddeiliaid allanol eraill;
- Cydweithio gyda sefydliadau eraill sydd wedi arwyddo'r cytundeb hwn ar draws dinasoedd, rhanbarthau, gwledydd a chyfandiroedd, fel rhan o ymateb rhyngwladol ar y cyd;
- Llywio, rhannu ein dysgu a rhoi cyfrif i gymunedau lleol a byd-eang ar ein cynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy; a hynny yn ein ffyrdd unigryw ein hunain;
- Adrodd yn flynyddol ar 'sut mae fy sefydliad yn cyfrannu at y Nodau a beth arall allwn ni ei wneud'.